

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Cydraddoldeb Comisiwn
y Cynulliad

2012–2016



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y tîm Cydraddoldeb a Mynediad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

T 0845 010 5500
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

1. Cyflwyniad

Ein Sefydliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu adnoddau, eiddo a staff i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu fel sefydliad seneddol. Felly, mae gennym gyfrifoldebau fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd.

Ein Dyletswyddau Cyfreithiol mewn perthynas â Chydraddoldeb

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y dylai swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad a thrafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael eu cynnal a'u gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae Comisiwn y Cynulliad yn gorff cyhoeddus heb ei ddatganoli. Mae hyn yn golygu bod gennym gyfrifoldebau fel sefydliad o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n cael eu pennu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Lle teimlwn fod hynny'n briodol, byddwn yn gweithredu yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru, sy'n fwy rhagnodol.

Mae ein Cynllun yn cydnabod bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Gomisiwn y Cynulliad i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol¹ a'r rhai nad ydynt, a
- meithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt*.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad hefyd gyhoeddi data monitro ac ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar gydraddoldeb.

¹ At y dibenion hyn, "y nodweddion gwarchoddedig perthnasol" yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Dylid cynnal swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad a thrafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae gan Gomisiwn y Cynulliad Gynllun Gwasanaethau Dwyieithog ar wahân sy'n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad blaenllaw yn ein hymrwymiad i hybu cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu hawliau dynol. Credwn fod cyfle cyfartal i bawb yn hawl dynol sylfaenol ac awn ati i wrthwynebu pob ffurf ar wahaniaethu.

Rydym yn ymdrechu i greu corff seneddol hygyrch sy'n ymgysylltu â holl bobl Cymru ac yn eu parchu.

Ein Gwerthoedd

Dyma y gall staff, Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ddisgwyl i Gomisiwn y Cynulliad ei gyflawni:

- Hybu, parchu a gwerthfawrogi cyfle cyfartal ac amrywiaeth
- Herio a dileu aflonyddu a gwahaniaethu
- Cydnabod a chwalu rhwystrau i gydraddoldeb, mynediad a chyfranogiad
- Ymddwyn fel sefydliad sy'n esiampl o gyflogwr da ac sy'n ddarparwr gwasanaeth hygyrch
- Anelu at sicrhau bod ein gweithlu'n gynrychioliadol o'n cymdeithas amrywiol
- Ehangu cyfranogiad ac ymgysylltiad ledled Cymru
- Hybu agweddau positif a pherthnasoedd da rhwng gwahanol grwpiau o bobl

Sut rydym yn bwriadu cyflawni ein gweledigaeth a hybu ein gwerthoedd:

- Trwy roi ein Cynllun Cydraddoldeb a pholisïau ategol eraill ar waith a mynd ati i'w monitro;
- Trwy gael polisïau teg, cynhwysol ac effeithiol ar waith ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau, Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu;
- Trwy hyfforddi a chefnogi staff Comisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u staff â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

cydraddoldeb perthnasol fel y gallant gyfrannu at y gwaith o weithredu'r Cynllun hwn;

- Trwy weithredu ar adborth, cwynion ac awgrymiadau lle bo'n briodol;
- Trwy ystyried effaith ein penderfyniadau, ein polisiau a'n swyddogaethau ac ati ar wahanol bobl.

Sut byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni hyn:

Bydd ein Cynllun Cydraddoldeb ar waith o fis Ebrill tan ddiwedd tymor y Cynulliad ym mis Ebrill 2016 ac yna bydd yn cael ei adolygu. Bob mis Ebrill, byddwn yn cyhoeddi Diweddariad Cydraddoldeb Blynnyddol a fydd yn nodi ein cynnydd yn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ac yn darparu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb gan gynnwys data monitro'r gweithlu. Bydd Comisiwn y Cynulliad yn adolygu'r diweddariadau'n flynyddol.

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar wefan y Cynulliad ac yn ei darparu mewn fformatau hygyrch.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymrwymo i gysyniadau canolog cydraddoldeb, tegwch, urddas a pharch. Er mwyn eu sefydlu ar draws ein sefydliad, mae'n bwysig bod pob aelod staff yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o ran hybu cydraddoldeb, cael gwared ar wahaniaethu a meithrin cysylltiadau da. Maent fel a ganlyn:

- Comisiynydd ac Uwch Reolwyr y Cynulliad i ddarparu arweiniad strategol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Rheolwyr llinell i sicrhau bod eu staff yn cael eu cefnogi ac yn gwireddu eu potensial yn llawn;
- Staff rheng flaen i ddarparu gwasanaethau sy'n cynnwys cysyniadau urddas a pharch;
- Timau perthnasol i adolygu ac asesu effaith ein gwaith ar gydraddoldeb;
- Y Tîm Cydraddoldeb i gefnogi, cydgysylltu a monitro cynnydd camau gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb;
- Pob aelod staff i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; herio ymddygiad gwahaniaethol a rhoi gwybod amdano; trin cydweithwyr gydag urddas a pharch a darparu gwasanaeth cynhwysol i bob cwsmer.

2. Methodoleg ymgynghori

Yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2011, cynhaliwyd ymgynghoriad i gasglu adborth i lywio'r gwaith o ddatblygu ein cynllun. Yn fewnol, lluniwyd arolygon dwyieithog ar-lein ar gyfer staff y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau. Aethom i gyfarfodydd tîm a chynhaliwyd grwpiau ffocws mewnol gyda'r staff, gan gynnwys ein rhwydweithiau staff, staff contract a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

Yn allanol, lluniwyd arolwg dwyieithog ar-lein mewn amrywiaeth o fformatau amgen ac ieithoedd cymunedol a oedd ar gael ar ein gwefan ac a hyrwyddwyd drwy ddatganiad i'r wasg, Twitter a Facebook. Cafodd y wybodaeth ei chynhyrchu ar ffurf hawdd ei darllen, Iaith Arwyddion Prydain, sain, print bras, Somali, Arabeg, Bengali, Wrddw, Gwjarati, Ffrangeg, Hindw, Pwnjabi, Pwyleg a Mandarin. Cafodd y dolenni i'r arolwg cyhoeddus, a'r amrywiaeth o fformatau eu rhannu ymysg ein holl gysylltiadau, ym mhob maes cydraddoldeb yng Nghymru. Cafodd y dolenni i'n hymgynghoriad eu hyrwyddo hefyd drwy sefydliadau allanol a oedd yn cynnwys Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli, Bwletin Casnewydd Iach, Silobreaker, Participation Cymru, Stonewall Cymru, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam, Anabledd Cymru, a Chymdeithas y Byddar Cymru. Mae Tabl 1 isod yn amlinellu'r grwpiau ffocws a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda sefydliadau allanol.

Tabl 1: Grwpiau Ffocws Allanol

Caerdydd	Mardi Gras Caerdydd Cymru
Ar draws de Cymru	Fforwm Ffydd y Cymoedd Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarth De-ddwyrain Cymru (SEWREC)
Llandeilo	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin Trans GIST
Senedd	Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth
Abertawe	MEWN Cymru
Wrecsam	Grŵp Cymorth Ceiswyr Lloches Wrecsam Tangnefedd – Fforwm Rhyng-ffydd, Heddwch a Chyfiawnder Gogledd-ddwyrain Cymru
Bae Colwyn – Y Rhyl	Grŵp Mynediad Conwy VIVA – grŵp ieuenctid LHDT

Yn ogystal â'n grwpiau ffocws, cawsom ymatebion i'n harolwg cyhoeddus gan amrywiaeth o unigolion a grwpiau, gan gynnwys eiriolwyr anabledau, ymwelwyr â'r Mardi Gras, pobl drawsrywiol, Cytûn, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru, Cymdeithas y Byddar Cymru, Age Cymru, Chwarae Teg, Tai Pawb a grwpiau Rhoi Pobl yn Gyntaf.

3. Ein Prif Amcanion Cydraddoldeb

Wth lunio'r prif amcanion, canolbwyntiwyd ar ein swyddogaethau allweddol. Dyma'r amcanion a nodwyd yn flaenoriaeth gennym:

- Annog ac ehangu ymgysylltiad â'r cyhoedd;
- Datblygu Comisiwn y Cynulliad ymhellach fel cyflogwr cyfle cyfartal;
- Cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'u staff a darparu gwasanaethau iddynt;
- Sefydlu cydraddoldeb ym mhrosesau rheoli'r sefydliad.

Ystyriwyd y canlynol hefyd:

- Ein maint, ein hadnoddau a natur ein gwaith;
- Tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd gennym;
- Ein gwaith blaenrol ar Gydraddoldeb, gan gynnwys adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb 2008-11;
- Adborth a chwynion;
- Ein hymrwymiaid cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rhoddwyd un o'r graddfeydd blaenoriaeth isod ar gyfer pob nod:

Blaenoriaeth

- 1 Mae'r nod hwn yn nodi bylchau sylweddol yn ein gwaith
- 2 Mae angen rhagor o waith er mwyn cyflawni'r nod
- 3 Dylid cynnal lefel gyfredol yr ymrwymiad

Mae'r nodau hynny a nodwyd yn rhai blaenoriaeth lefel 1 yn rhai penodol a mesuradwy.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi'r gwaith y mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu ei wneud dros y pedair blynedd nesaf er mwyn ein helpu i gyflawni'r nodau hynny. Er bod llawer o'r camau gweithredu yn rhai newydd, mae eraill yn seiliedig ar arferion da cyfredol.

4. Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am ein Cynllun Cydraddoldeb neu os oes gennych ymholiad neu awgrym, mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Ross Davies	029 2089 8197
Sarah Crosbie	029 2089 8204
Ffôn testun:	029 2089 8601
E-bost:	tim.cydraddoldebau@wales.gov.uk

Prif Amcan 1: Annog ac Ehangu Ymgysylltiad â'r Cyhoedd

Ystyr ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd:

- Aelodau'r cyhoedd yn gallu dod o hyd i wybodaeth yn hawdd a chyflym am y Cynulliad a'i fusnes a sut i gysylltu ag Aelodau'r Cynulliad a sut i gyfrannu at fusnes y Cynulliad
- Mae gan Aelodau'r Cynulliad ddulliau o ymgysylltu â phobl Cymru
- Mae ein cyfleusterau a'n gwasanaethau'n cynnwys y cyhoedd ac ar gael iddynt
- Gall sefydliadau a grwpiau buddiant ystyried ystâd y Cynulliad yn lleoliad wrth gynnal digwyddiadau
- Mae ein Timau Pwyllgor, Allgymorth ac Addysg yn cyrraedd grwpiau amrywiol / heb gynrychiolaeth ddigonol nad ydynt wedi dod i gysylltiad â'r Cynulliad o'r blaen nac wedi bod yn rhan o'i waith
- Mae aelodau'r cyhoedd yn gwybod y gallant ymweld ag ystâd y Cynulliad ac yn ymwybodol o'n cyfleusterau.

Nodau	Lefel Blaeno riaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn mynd ati i ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl ledled Cymru	2	Mae grwpiau amrywiol yn gwybod am waith y Cynulliad a sut i gyfrannu a chysylltu â'u Haelod Cynulliad. Adborth a gesglir gan ein tîm allgymorth	<p>Adolygu gwaith ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod pobl yn deall rôl y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad</p> <p>Canolbwyntio ar ymgysylltu â grwpiau llawr gwlad ac amrywiol yn ein strategaethau ymgysylltu ac ymgynghori</p> <p>Ystyried sut y byddwn yn darparu gwybodaeth ar ffurf copi caled mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol</p> <p>Datblygu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasu er mwyn cyrraedd grwpiau amrywiol</p> <p>Hyrwyddo gwaith Allgymorth drwy gyfryngau cymdeithasu, cyfryngau lleol a chysylltiadau lleol</p> <p>Gweithio'n agosach gydag Aelodau a'r Llywydd i hyrwyddo ymgysylltiad â'r cyhoedd</p> <p>Asesu dichonolrwydd cynnal cynllun mentora Camu Ymlaen Cymru arall</p>	Medi 2012	Pennaeth Cyfathrebu
				Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu
				Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu
				Medi 2012	Pennaeth Cyfathrebu
				Medi 2012	Pennaeth Cyfathrebu
				Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu
				Medi 2013	Rheolwr Cydraddoldeb

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
			Hyrwyddo cydraddoldeb drwy gyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau hybu cydraddoldeb ledled Cymru	Ebrill 2013 Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu Pennaeth Cyfathrebu
Byddwn yn sicrhau bod ein hystadau a'n cyfleusterau'n hygyrch	2	Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaethau	Cynnal archwiliad mynediad o Ystad y Cynulliad a blaenoriaethu camau gweithredu Gosod arwyddion y tu allan i'r Senedd i groesawu ymwelwyr a hyrwyddo gwasanaethau a chyfleusterau Cynnal gwiriadau cynnal a chadw misol o wasanaethau hygyrch	Mehefin 2012 Ebrill 2013	Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau
Byddwn yn sicrhau bod ein gwybodaeth yn hygyrch (ysgrifenedig, gweledol a gwasanaethau Rhyngrwyd)	2	Cynnydd yn amrywiaeth y wybodaeth sydd ar gael mewn fformatau hygyrch. Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau	Adolygu ein brand cyhoeddiadau er mwyn nodi a blaenoriaethu'r camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau o ran cael gafael ar wybodaeth Datblygu cyhoeddiad cyflwyno newydd mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau hygyrch.	Medi 2012 Medi 2012	Pennaeth Cyfathrebu Pennaeth Cyfathrebu

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
			Darparu hyfforddiant ar iaith glir i staff	Ebrill 2013	Pennaeth hyfforddiant AD, Pennaeth Cyfathrebu
			Cynnal archwiliad o hygyrchedd ein gwefan a blaenoriaethu camau gweithredu	Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu
Byddwn yn sicrhau bod busnes ffurfiol y Cynulliad yn hygyrch i bobl amrywiol yng Nghymru	2	Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaethau Derbyn mwy o dystiolaeth a mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad gan grwpiau amrywiol.	Datblygu gwaith allgymorth er mwyn cynyddu ymgysylltiad pwyllgorau Defnyddio rhestr wirio er mwyn sicrhau bod y lleoliadau a drefnwyd ledled Cymru yn hygyrch	Ebrill 2013 Medi 2012	Pennaeth Cyfathrebu Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth
			Hyrwyddo trafodaethau perthnasol gyda grwpiau cynrychioliadol	Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu
			Hyrwyddo deisebau gyda grwpiau amrywiol drwy allgymorth a chyfathrebu	Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
			Adolygu prosesau i nodi a dileu rhwystrau i ymgysylltu a chyfranogi	Ebrill 2013	Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad, Pennaeth Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth
			Adolygu a diweddarau cronfa ddata o grwpiau cydraddoldeb ar gyfer ymgynghoriadau	Ebrill 2013	Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil

Nodau	Lefel Blaeno riaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn sicrhau y cynhelir digwyddiadau amrywiol ar Ystad y Cynulliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth	3	Y Cynulliad yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n cynrychioli poblogaeth amrywiol Cymru	Llunio pecyn cymorth ar gynnal ymgynghoriadau cynhwysol	Ebrill 2013	Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil
Byddwn yn sicrhau y cynhelir digwyddiadau amrywiol ar Ystad y Cynulliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth	3	Y Cynulliad yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n cynrychioli poblogaeth amrywiol Cymru	Archwilio'r defnydd o ystâd y Cynulliad fel lleoliad i grwpiau amrywiol gynnal digwyddiadau Adolygu canllawiau cyfredol ar ddigwyddiadau i gynnwys gwybodaeth am fynediad i drydydd partion gynnal digwyddiadau yma drwy rannu ein canllawiau ar gyhoeddiadau hygyrch	Ebrill 2013 Medi 2012	Pennaeth Blaen y Tŷ Pennaeth Blaen y Tŷ

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
			Sicrhau bod materion mynediad yn cael eu hystyried ar gyfer digwyddiadau drwy gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb	Medi 2012	Pennaeth Digwyddiadau Blaen y Tŷ, Pennaeth Digwyddiadau Corfforaethol
Byddwn yn gwella'r profiad ymwelwyr i grwpiau amrywiol	2	Y Cynulliad yn croesawu a derbyn adborth cadarnhaol gan ymwelwyr amrywiol	Hyrwyddo teithiau ac ymweliadau i grwpiau amrywiol Hwyluso teithiau yn laith Arwyddion Prydain yn ôl y gofyn Adolygu gwybodaeth ac arwyddion sy'n cyfeirio pobl at y Cynulliad Staff Blaen y Tŷ i gael hyfforddiant ar groesawu ymwelwyr amrywiol.	Ebrill 2013 Medi 2012 Medi 2012	Pennaeth Cyfathrebu Pennaeth Blaen y Tŷ Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau
			Rhoi gwybodaeth i ymwelwyr yn y Senedd cyn cynnal gwiriad diogelwch.	Medi 2012	Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth hyfforddiant AD, Pennaeth Blaen y Tŷ
				Medi 2012	Pennaeth Blaen y Tŷ

Prif Amcan 2: Datblygu Comisiwn y Cynulliad fel Cyflogwr Cyfle Cyfartal

Ystyr cyflogwr cyfle cyfartal

- Staff yn cael eu cefnogi ac yn gallu gwreiddo eu potensial yn llawn fel gweithwyr cyflogedig
- Mae gwahanol bobl o gefndiroedd amrywiol yn ystyried Comisiwn y Cynulliad fel cyflogwr posibl
- Mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth
- Mae ein polisiau recriwtio a chyflogaeth yn gynhwysol a theg
- Rydym yn monitro data er mwyn ein helpu i wybod a oes gan staff broblemau neu bryderon

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein staff i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau cydraddoldeb trwy raglen hyfforddiant ar gydraddoldeb a Strategaeth Pobl Comisiwn y Cynulliad	1	Bydd pob aelod staff, gan gynnwys uwch reolwyr a rheolwyr llinell, yn gwybod beth yw'r cyfrifoldebau yn sgil cyfleoedd codi ymwybyddiaeth a dysgu a datblygu ym maes cydraddoldeb (hyfforddiant sefydlu, gloywi a staff rheng flaen penodol); canlyniadau Datganiad y Llywodraeth ar wybodaeth y staff am faterion llywodraethu	Datblygu a gweithredu strategaeth hyfforddi ar gyfer pob aelod staff Datblygu geirfa o iaith cydraddoldeb a'i hyrwyddo ymhlith staff Sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys mewn Rhaglenni Datblygu Rheolwyr Cynnal Wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i godi ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb	Rhagfyr 2012 Mehefin 2012 Rhagfyr 2012 Bob Mehefin	Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth hyfforddiant AD Rheolwr Cydraddoldeb Pennaeth hyfforddiant AD, Rheolwr Cydraddoldeb Rheolwr Cydraddoldeb

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn cefnogi staff sydd â gofynion penodol mewn perthynas â'u nodweddion gwarchoddedig	3	Adborth staff ac arolwg hinsawdd cydraddoldeb, adborth gan rwydweithiau staff	Hyrwyddo mecanweithiau cymorth i staff – rhwydweithiau, Tîm Cydraddoldeb, llinell gymorth gweithwyr cyflogedig, AD, Undebau	Ebrill 2013	Pennaeth Cyfathrebu
			Cynnal Asesiadau o Gyfarpar Sgriniau Arddangos ar gyfer holl staff y Cynulliad	Ebrill 2013	Pennaeth Iechyd a Diogelwch AD
			Hyrwyddo polisiau cydraddoldeb gyda phob aelod staff	Ebrill 2013	Pennaeth Gweithrediadau AD, Pennaeth Cyfathrebu
			Datblygu polisi iechyd meddwl a lles	Medi 2012	Pennaeth Gweithrediadau AD, Pennaeth Iechyd a Diogelwch

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
			Cynnal rhaglen dreigl o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â pholisiau staff	Ebrill 2013	Pennaeth Gweithrediadau AD, Rheolwr Cydraddoldeb
Byddwn yn sicrhau bod ein polisiau recriwtio a chyflogaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb ac nad ydynt yn gwahaniaethu	3	Bydd ein holl bolisiau yn cael eu hasesu am eu heffaith ar gydraddoldeb yn y camau datblygu ac adolygu	Sicrhau bod yr holl baneli recriwtio yn derbyn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - arferion recriwtio	Ebrill 2013	Pennaeth Hyfforddiant AD, Pennaeth Recriwtio AD
Byddwn yn parhau i gynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal	3	Mae ein system gyflogau yn deg, yn anwahaniaethol ac nid oes/ni ellir cyfiawnhau bylchau cyflog	Cynnal adolygiadau blynyddol	Ebrill 2013	Pennaeth Hyfforddiant AD, Pennaeth Recriwtio AD
			Cynnal adolygiadau blynyddol	Cyhoeddir yn flynyddol ym mis Ebrill	Pennaeth Gweithrediadau AD

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn rhoi cymorth i'n rhwydweithiau staff ac yn eu cynnwys mewn datblygiadau polisi ac yn defnyddio eu harbenigedd i weld lle y gallwn wella polisiau/gwasanaethau	3	Mae gan rhwydweithiau'r cyfleusterau a'r adnoddau angenrheidiol i hyrwyddo cyfle cyfartal	Datblygu canllawiau sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael i rhwydweithiau staff Cynnwys rhwydweithiau staff mewn Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â pholisiau corfforaethol Sefydlu rhwydwaith Pobl Dduon a Lleiadrifoedd Ethnig ymhlith y staff Sefydlu rhwydwaith mamolaeth ymhlith y staff	Medi 2012 Ebrill 2013 Rhagfyr 2012 Rhagfyr 2012	Pennaeth Gweithrediadau AD Rheolwr Cydraddoldeb Pennaeth Gweithrediadau AD, Rheolwr Cydraddoldeb Pennaeth Tîm Cydraddoldeb Rheolwr Cydraddoldeb

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn gwella ein data ar gydraddoldeb y gweithlu ac yn ei gyhoeddi lle nad yw'n tarfu ar breifatrwydd unigolion	1	Data monitro staff mwy cyflawn (wedi'i rannu yn ôl nodweddion)	Annog staff i gwblhau ffurflen fonitro drwy gyfathrebu mewnol a'r system AD	Ebrill 2013	Pennaeth Gweithrediadau AD, Pennaeth Cyfathrebu
Byddwn yn defnyddio adborth staff i ddatblygu'r agenda gydraddoldeb a mynd i'r afael â'r meysydd sy'n peri pryder	3	Defnyddio data arolwg staff a mathau eraill o adborth i gasglu tystiolaeth	Adrodd yn flynyddol am y broses o fonitro staff	Cyhoeddir yn flynyddol ym mis Ebrill	Pennaeth Gweithrediadau AD, Rheolwr Cydraddoldeb
Byddwn yn hyrwyddo ein sefydliad fel cyflogwr o ddewis, yn dathlu amrywiaeth ac	2	Data ac adborth monitro recriwtio. Ystyried sut a lle caiff swyddi eu	Cynnal arolygon staff rheolaidd	Ebrill 2013	Swyddogion arweiniol, Pennaeth Gweithrediadau AD, Rheolwr Cydraddoldeb
			Cynnig un lleoliad gwaith y flwyddyn i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol	Ebrill 2013	Pennaeth Recriwtio AD

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif Gyfrifoldeb
yn ceisio apelio at amrywiaeth eang o bobl		hysbysebu	Datblygu gwaith cyfathrebu er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro pobl amrywiol rhag ymgeisio	Ebrill 2013	Pennaeth Recrwtio AD, Pennaeth Cyfathrebu

Prif Amcan 3: Cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'u staff a darparu gwasanaethau iddynt

Ystyr cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'u staff a darparu gwasanaethau iddynt:

- Darparu cyngor a chanllawiau i Aelodau'r Cynulliad a'u staff fel y gallant gyflawni eu swyddi yn effeithiol
- Darparu gwybodaeth am faterion cydraddoldeb a busnes y Cynulliad
- Darparu cyngor ar gydraddoldeb a materion mynediad i Gomisiwn y Cynulliad
- Darparu llety, TGCh a gwasanaethau perthnasol eraill

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif gyfrifoldeb
Byddwn yn sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad y wybodaeth ddiweddaraf sydd ei hangen arnynt i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau cydraddoldeb fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gomisiwn y Cynulliad am ofynion cyfreithiol ac arfer gorau	3	Cyngor a chanllawiau ar gael i Aelodau ar fynediad a chydraddoldeb mewn perthynas â'u swyddogaethau amrywiol fel Aelodau'r Cynulliad (e.e. fel cynrychiolwyr etholedig, cyflogwyr). Aelodau'n hyderus eu bod yn gwybod beth yw eu hymrwymiaadau cyfreithiol dan y Ddeddf Cydraddoldeb	Adolygu a diweddarau canllawiau ar gydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn flynyddol Hyrwyddo canllawiau ar gydraddoldeb i Aelodau drwy gyfathrebu mewnol Datblygu strategaethau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer Aelodau ar faterion cydraddoldeb	Ebrill 2013 Ebrill 2013 Ebrill 2013	Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Pennaeth y Comisiwn a'r Tîm Cymorth i Aelodau Pennaeth Cyfathrebu, Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth y Comisiwn a'r Tîm Cymorth i Aelodau Pennaeth y Comisiwn a'r Tîm Cymorth i Aelodau, Rheolwr Cydraddoldeb

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif gyfrifoldeb
			<p>Rhoi rhestr wirio i Aelodau ar gyfer llogi / defnyddio lleoliadau hygyrch</p> <p>Datblygu geirfa o iaith cydraddoldeb</p> <p>Hyrwyddo rhwydweithiau staff i Aelodau a'u staff drwy gyfathrebu mewnol</p> <p>Cyflwyno a hyrwyddo Cronfa Mynediad i gynorthwyo Aelodau anabl</p>	<p>Medi 2012</p> <p>Mehefin 2012</p> <p>Ebrill 2013</p> <p>Mehefin 2012</p>	<p>Rheolwr Cydraddoldeb</p> <p>Rheolwr Cydraddoldeb</p> <p>Pennaeth Cyfathrebu, Cadeiryddion Rhwydweithiau, Rheolwr Cydraddoldeb</p> <p>Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth y Comisiwn a'r Tîm Cymorth i Aelodau</p>

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad Adolygu	Prif gyfrifoldeb
Byddwn yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i Aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried cydraddoldeb wrth gyflawni eu gwaith	2	<p>Rhoi gwybodaeth i Aelodau am Gyfarfodydd Llawn, Pwyllgorau a gwaith etholaeth.</p> <p>Proses sicrhau ansawdd a monitro gwaith y Gwasanaeth Ymchwil</p> <p>Rhoi gwybodaeth i Aelodau am eu dyletswyddau/eu paratoi ar gyfer eu gwaith a'u cyfarfodydd</p>	<p>Sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried ym mhob agwedd ar waith ymchwil</p> <p>Cyflwyno Cronfa Mynediad i gynorthwyo Aelodau i gyfathrebu'n effeithiol ag etholwyr amrywiol</p> <p>Hyrwyddo gwaith Timau Allgymorth a Digwyddiadau gydag Aelodau er mwyn eu cynnwys yn ein gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb</p>	Ebrill 2013 Mehefin 2012 Ebrill 2013	<p>Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil</p> <p>Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth y Comisiwn a'r Tîm Cymorth i Aelodau</p> <p>Pennaeth Cyfathrebu</p>

Prif Amcan 4: Sefydlu Cydraddoldeb ym Mhrosesau Rheoli'r Sefydliad

Ystyr sefydlu cydraddoldeb ym mhrosesau rheoli'r sefydliad:

- Y modd y gwneir penderfyniadau sy'n rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb/yr effaith ar wahanol bobl
- Bod ag aelod staff uwch yn y sefydliad sy'n hyrwyddo materion cydraddoldeb ac yn arwain drwy esiampl yn y maes hwnnw

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn nodi effaith bosibl ein penderfyniadau ar grwpiau gwahanol o bobl wrth i ni ddatblygu neu adolygu ein polisiau, contractau, swyddogaethau neu wasanaethau sy'n berthnasol i gydraddoldeb	1	Bydd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'u cynnal ar bolisiau a phenderfyniadau perthnasol a byddant yn deg a chynhwysol Monitro cwynion a mynd i'r afael â nhw Bydd polisiau a gwasanaethau yn cael eu cydnabod yn allanol	Cyflwyno system newydd o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'n penderfyniadau, ein polisiau a'n harferion. Sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan annatod o'n datblygiadau strategol a'n Dogfennau Mentrau Prosiectau	Mehefin 2012 Ebrill 2013	Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth Polisiau Rheolwr Cydraddoldeb, Swyddogion arweiniol Polisiau

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb yn y broses caffael a bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r ddeddf cydraddoldeb	2	Cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio yn y broses caffael drwyddi draw a gallwn ddenu cyflenwyr amrywiol sy'n bodloni eu hymrwymiadau dan y ddeddf cydraddoldeb	Sicrhau bod Cydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses o adolygu systemau caffael	Ebrill 2013	Pennaeth Caffael
Byddwn yn cadw cofnod o faterion cydraddoldeb	2	Y Tîm Cydraddoldeb i gofnodi materion cydraddoldeb a mynd i'r afael â nhw	Monitro cydraddoldeb - materion a chwynion perthnasol	Ebrill 2013	Rheolwr Cydraddoldeb

Nodau	Lefel Blaenoriaeth	Sut mae mesur ein llwyddiant	Camau Gweithredu	Targed / Dyddiad adolygu	Prif Gyfrifoldeb
Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd a fydd yn dryloyw a hygyrch	3	Llunio a chyhoeddi diweddariadau blynyddol	Llunio Adroddiadau Blynyddol ar Gydraddoldeb a fydd yn nodi sut rydym yn cyflawni ein hamcanion	Diweddariad au blynyddol bob Ebrill	Rheolwr Cydraddoldeb
Byddwn yn hyrwyddo Cynlluniau ac Amcanion Cydraddoldeb gyda staff a'u rhannu gyda chyflenwyr a phartion perthnasol eraill	2	Cwblhau rhaglen o weithgareddau codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad; sicrhau bod staff yn parhau'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau cydraddoldeb yn y Datganiad Llywodraethu	Hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb drwy weithio gyda'r Llywydd, Comisiynwyr y Cynulliad a'r Prif Weithredwr drwy gyfathrebu mewnol, noddi ac annerch mewn digwyddiadau	Medi 2012	Rheolwr Cydraddoldeb, Pennaeth Cyfathrebu
			Rhannu ein gwerthoedd corfforaethol gyda chyflenwyr a'r cyhoedd	Ebrill 2013	Pennaeth Caffael, Pennaeth Cyfathrebu